


# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021

## Adroddiad Cam yr Hydref

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
84/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
21/12/2021






Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80391-444-2

© Hawlfraint y Goron 2021

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021: Adroddiad ton yr hydref

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80391-444-2
21 Rhagfyr 2021
© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**

1. Prif ganfyddiadau ........................................................................**Error! Bookmark not defined.**

2. Cefndir a methodoleg....................................................................**Error! Bookmark not defined.**

3. Capasiti gweithredu a pherfformiad yn ystod yr hydref ............................................................... 4

4. Newidiadau strategol parhaol a chymorth sydd ei angen.......................................................... 11

5. Ymwybyddiaeth o’r ymgyrch ac archebion ymlaen llaw ............................................................ 16

6. Recriwtio ........................................................................................................................ 19

7. Hyder ..............................................................................................**Error! Bookmark not defined.**

## 1. Prif ganfyddiadau

### Hydref prysur yn dilyn haf prysur

1.1 Mae tua dau o bob pump (38%) o weithredwyr wedi cael mwy o gwsmeriaid o gymharu â hydref 'normal' (cyn Covid), mae cyfran debyg (35%) wedi cael yr un peth, ac mae 27% wedi cael llai. Mae hyn yn dilyn haf prysur, pan adroddodd tua hanner (48%) fwy o ymwelwyr nag mewn haf cyn-Covid arferol, a nododd 31% yr un peth.

1.2 Fel y gwelir mewn tonnau baromedr eraill eleni, mae perfformiad yr hydref yn cyd-fynd yn gryf â'r gallu gweithredu. Mae'r sectorau mwy 'hunangynhwysol' - llety hunanarlwyo a pharciau carafannau - yn parhau i berfformio'n arbennig o dda, ac mae bod yn llawer mwy tebygol o weithredu hyd eithaf eu gallu yn rheswm allweddol. Mae tua hanner (51%) y gweithredwyr hunanarlwyo wedi cael mwy o ymwelwyr nag mewn hydref arferol, ac mae 29% wedi cael yr un lefel. Mae tua dau o bob pump (42%) maes carafannau wedi cael mwy o ymwelwyr ac mae 36% wedi cael yr un lefel.

1.3 Fel mewn tonnau baromedr eraill yn ystod y pandemig, y prif reswm dros farchnad fywiog yw bod pobl ar eu gwyliau yn y DU wedi bod yn trefnu gwyliau yng Nghymru yn lle dramor – mae 76% o'r rhai sy'n profi lefelau cwsmeriaid uwch yn dweud hyn.

1.4 Ymhlith busnesau sy'n profi lefelau is o gwsmeriaid, y rheswm a grybwyllir amlaf (38%) yw bod yn ofalus wrth archebu. Mae nerfusrwydd o ran dal Covid wedi cynyddu eto wrth i dywydd oerach gyrraedd ac wrth i achosion Covid yn y DU godi yr hydref hwn.

### Mae recriwtio yn parhau'n her fawr ar gyfer y rhai hynny sy'n chwilio am staff

1.5 Ar hyn o bryd, mae 28% o fusnesau yn y sectorau llety â gwasanaeth, tafarndai, bwytai a chaffis yn ceisio recriwtio staff. Ymhlith y rhain, mae 61% yn cael 'cryn anhawster' wrth recriwtio ac mae 26% yn profi 'peth anhawster'. Dywed rhai eu bod yn cael eu gorfodi i leihau amseroedd agor neu wasanaethau bwyd o ganlyniad.

### Mae rhagolygon y flwyddyn nesaf yn dibynnu ar amrywiadau Covid a chynlluniau i fynd ar wyliau dramor

1.6 Mae tua chwarter (27%) y gweithredwyr yn 'hyderus iawn' ynglŷn â chynnal y busnes yn broffidiol y flwyddyn nesaf, ac mae tua hanner (49%) yn 'eithaf hyderus'. Mae dau ffactor allweddol sy'n effeithio ar hyder: a fydd mwy o gyfyngiadau symud yn sgil amrywiolion Covid newydd, ac a fydd niferoedd mawr yn cymryd gwyliau yn y DU unwaith eto neu'n dychwelyd i wyliau dramor.

## 2. Cefndir a methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Dyluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r don hon yn ymwneud â hydref 2021.

### Sut caiff yr arolwg ei gynnal?

2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnir i bawb yn gywir i ± 3.3%. Mae'r sampl yn adlewyrchu'n fras y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth.


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 108 | 40 | 81 | 57 | **286** |
| Hunanarlwyo | 99 | 47 | 82 | 39 | **267** |
| Meysydd gwersylla / carafannau | 45 | 23 | 28 | 8 | **104** |
| Hosteli | 7 | 8 | 2 | 4 | **21** |
| Atyniadau | 28 | 16 | 24 | 24 | **92** |
| Gweithredwyr gwasanaethau | 14 | 7 | 18 | 4 | **43** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 25 | 23 | 16 | 23 | **87** |
| **Cyfanswm** | **326** | **164** | **251** | **159** | **900** |

2.3 Mae 57% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau wedi'u graddio a heb eu graddio wedi'u gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ac eithrio bwytai / tafarndai / caffis, lle nad yw graddio yn berthnasol.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweliad ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes rhwng 22 Tachwedd a 6 Rhagfyr.

# 3. Capasiti gweithredu a pherfformiad yn ystod yr hydref

## Ar agor eleni





**Yn falch o fod ar agor eto eleni**

3.1 Ailagorodd bron pob busnes (96%) ar ryw adeg eleni, er bod y gyfran yn is ymhlith darparwyr gweithgareddau a hosteli. Yn gyffredinol, mae gweithredwyr yn falch eu bod wedi achub busnes o'r flwyddyn hon, a ddechreuodd gyda chyfyngiadau symud parhaus hir o ddiwedd 2020.

*"Cawsom haf eithriadol o brysur eleni."*
Atyniad, Gogledd

*"Roedd pobl yn chwilio am unrhyw le a oedd â lleoedd gwag. Maen nhw wedi darganfod y rhan hon o'r byd. Roeddem yn llawn drwy'r haf."*
Hunanarlwyo, Canolbarth

## Capasiti gweithredu




*Os bydd capasiti gweithredu wedi newid ar ôl llacio cyfyngiadau ar 7 Awst, rydym wedi cofnodi ei lefel uchaf. Mae capasiti 'normal' yn golygu cyn Covid.*

### Capasiti gweithredu a'r effeithiau ar nifer y cwsmeriaid


3.2 Er i Lywodraeth Cymru leihau cyfyngiadau Covid ar raddfa eang ar 7 Awst, nid yw bron hanner (45%) y busnesau wedi dychwelyd i'w capasiti gweithredu llawn eto.

3.3 Fel y gwelwyd mewn tonnau ymchwil cynharach, mae'r mathau mwy 'hunangynhwysol' o lety – hunanarlwyo a pharciau carafannau – wedi mwynhau capasiti gweithredu uwch (mae 72% wedi bod yn gweithredu hyd eithaf eu gallu).

3.4 Mae heriau wedi parhau ar gyfer hosteli, lle mae pump o'r 19 o ymatebwyr sydd wedi agor eleni wedi bod yn gweithredu ar gapasiti sy'n llai na 50%.

3.5 Mae'r canfyddiadau hyn yn gyd-destun pwysig ar gyfer canlyniadau'r cwestiwn a ganlyn.

## Nifer ymwelwyr yn ystod yr hydref




**Mae perfformiad yn parhau i gyd-fynd yn gryf â chapasiti gweithredu**

3.6 Mae tua dau o bob pump (38%) o weithredwyr wedi cael mwy o gwsmeriaid o gymharu â hydref 'normal' (cyn Covid), mae cyfran debyg (35%) wedi cael yr un peth, ac mae 27% wedi cael llai.

3.7 Mae'r sectorau mwy 'hunangynhwysol' – llety hunanarlwyo a meysydd carafannau – yn parhau i berfformio orau o'u cymharu ag unrhyw sectorau eraill.


*"Mae pobl yn teimlo'n fwy diogel mewn llety hunanarlwyo."*
Hunanarlwyo, Gogledd

3.8 Mae meysydd carafannau yn gweld ymchwydd yn y galw i brynu carafannau statig, ac ni all gweithgynhyrchwyr eu gwneud yn ddigon cyflym.

*"Mae cyflenwad a galw am garafannau yn hunllef. Rhaid i chi aros tan 2023 am garafán Willerby newydd er enghraifft."*
Maes carafannau, De-orllewin

*"Mae pobl yn prynu carafannau statig heb hyd yn oed wybod y prisiau."*
Maes carafannau, Gogledd

3.9 Mae'r siart a ganlyn yn dangos sut mae canlyniadau C3 yn cyd-fynd yn gryf â'r capasiti gweithredu (C2).




*Mae 'normal' yn golygu cyn Covid*

**Hydref prysur iawn os gellir manteisio ar y galw**


3.10 Mae tua hanner (49%) y busnesau sy'n gweithredu hyd eithaf eu gallu wedi mwynhau hydref prysurach na'r arfer (cyn Covid), ac mae 36% wedi cael yr un lefel o gwsmeriaid.

3.11 Ond mae busnesau sy'n gweithredu ar gapasiti llai na 75% wedi'i chael yn anodd cyfateb i lefel y cwsmeriaid y byddent fel arfer yn gallu eu derbyn yn yr hydref.

*"Ym mis Medi a mis Hydref eleni ni chawsom noson rydd."*
Maes carafannau, De-orllewin

*"Mae gen i fy arwydd yn y ffenestr o hyd yn dweud mai dim ond pedwar o bobl sy'n cael dod i mewn ar y tro. Ar anterth yr haf, fe allech chi wasgu 15 i mewn."*
Atyniad, De-orllewin

## Perfformiad fesul rhanbarth





### Perfformiad cryf yn yr hydref yng ngogledd Cymru

3.12 Nid yw'r gwahaniaethau fesul rhanbarth yn arwyddocaol ar y cyfan, ac eithrio bod gogledd Cymru wedi mwynhau tymor hydref arbennig o dda.

> *"Dyma'r hydref prysuraf rydyn ni wedi'i gael ers i ni agor dros 19 mlynedd yn ôl oherwydd bod gwyliau pobl dramor wedi cael eu canslo."*
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

> *"Rydym wedi bod yn llawn trwy gydol yr hydref am wythnosau cyfan, sy'n newydd ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn."*
> Hunanarlwyo, Gogledd

## Rhesymau dros fod yn brysurach




*Mae 'normal' yn golygu cyn Covid*

### Cymryd lle gwyliau dramor

3.13 Fel y gwelwyd yn nhon ymchwil yr haf, nid yw llawer o bobl ar wyliau yn y DU wedi teithio dramor eleni fel y byddent fel arfer, ac yn lle hynny maen nhw wedi dewis gwyliau yn y DU (nododd 88% o'r ymatebwyr hyn yn nhon haf y baromedr). Mae'r duedd hon wedi parhau trwy'r hydref.

*"Mae llawer o'n cwsmeriaid yn ymweld oherwydd eu bod yn ysu i deithio ac yn methu â theithio dramor."*
Hunanarlwyo, De-orllewin


*"Mae Covid wedi ymestyn y tymor. Llenwyd unrhyw fylchau ar y funud olaf. Er bod bron i ddim ymwelwyr tramor i bob pwrpas, mae galw cronedig i ddianc yn y DU."*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

### Wedi diflasu bod gartref

3.14 Mae cyfyngiadau symud hir Covid cyn yr haf eleni wedi bod yn cael yr effaith o hyd o yrru pobl allan o'u cartrefi eu hunain yr hydref hwn.

*"Mae pobl wedi diflasu o'u cartrefi eu hunain."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Rhesymau dros fod yn dawelach




*Mae 'normal' yn golygu cyn Covid*

### Mae pobl yn bwyllog unwaith eto

3.15 Gydag achosion Covid yn codi eto yn yr hydref a thywydd oer yn cyrraedd, mae llawer o bobl wedi teimlo'n nerfus i archebu oherwydd eu bod yn ofni'r feirws.

*"Wrth i'r tywydd oeri, mae ein cwsmeriaid wedi lleihau oherwydd pryderon am Covid a'r honiadau ei fod yn fwy cyffredin yn ystod y misoedd oerach."*
Hunanarlwyo, Canolbarth

*"Mae pobl yn bryderus am ddal Covid."*
Caffi, De-ddwyrain

### Methu ateb y galw


3.16 Fel y trafodwyd eisoes, nid yw llawer o fusnesau wedi dychwelyd i'w capasiti gweithredu llawn eto, ac mae hyn wedi golygu methu ateb y galw.

*"Rydym wedi rhannu'r trên yn adrannau ac yn cymryd llai o gwsmeriaid ar y tro."*
Atyniad, Canolbarth

## 4. Newidiadau strategol parhaol a chymorth sydd ei angen

### Cyfran sy'n gwneud newidiadau strategol


**C7 "Nawr bod y rhan fwyaf o gyfyngiadau Cofid wedi'u dileu yng Nghymru, ydych chi wedi gwneud neu a ydych chi'n mynd i wneud unrhyw newidiadau strategol parhaol i'r ffordd y mae'r busnes yn cael ei redeg yn y dyfodol?" (*% yn ateb 'ydw' yn ôl sector)***




**Mae chwarter yn gwneud newidiadau parhaol**

4.1 Cododd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o gyfyngiadau Covid yng Nghymru mewn camau o ddechrau'r gwanwyn hyd at fis Awst. Fodd bynnag, mae profiad y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ysgogi chwarter (25%) o fusnesau i wneud newidiadau strategol parhaol. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith darparwyr gweithgareddau.

## Newidiadau strategol sy'n cael eu gwneud




### Dull mwy penodol

4.2 Mae tua chwarter (26%) y gweithredwyr sy'n gwneud newidiadau strategol parhaol wedi penderfynu canolbwyntio eu hymdrechion ar gynnyrch neu wasanaeth craidd penodol yn hytrach na cheisio gwneud gormod. Mae penderfyniadau yn aml yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf proffidiol, mwyaf pleserus neu'r drafferth leiaf. Ymhlith yr enghreifftiau mae mwy o bwyslais preifat/unigryw ar gyfer gweithgareddau, a meysydd carafannau tymhorol yn hytrach na theithio arhosiad byr.

*"Rydym wedi dechrau derbyn llai o archebion a'i wneud yn fwy o fusnes preifat ac unigryw. Mae wedi gweithio'n dda iawn."*
Darparwyr gweithgareddau, De-orllewin

*"Byddwn yn mynd yn gwbl dymhorol. Bydd ymwelwyr yn dymhorol, yn hytrach nag yn dod dros benwythnosau. Byddwn yn cymryd llawer llai o leiniau [teithiol]."*
Maes carafannau, Gogledd

*"Mae'n fusnes gwahanol nawr oherwydd Covid. Roedden ni'n arfer cael carafannau teithiol ond rydyn ni wedi troi'r lleiniau yn lleiniau tymhorol. Roedd pobl yn arfer mynd a dod am wythnosau neu benwythnosau ond nawr maen nhw yma'r rhan fwyaf o'r flwyddyn."*
Maes carafannau, De-ddwyrain

### Cynhyrchion a gwasanaethau newydd

4.3 Er bod rhai busnesau'n canolbwyntio mwy ar gynnig craidd penodol, mae cyfran debyg (24%) o'r rhai sy'n gwneud newidiadau strategol yn mynd i'r gwrthwyneb trwy gyflwyno gwasanaethau neu gynhyrchion newydd.

*"Rydyn ni'n prynu ein cwt ein hunain i groesawu ymwelwyr."*
Atyniad, Gogledd

*"Rydym yn gwneud cwrs ymosod dan do ar gyfer y tu mewn. Bydd yn barod ym mis Ionawr."*
Atyniad, Canolbarth

### Presenoldeb gwell ar-lein

4.4 Mae 13% o weithredwyr bellach yn mwynhau gwell presenoldeb ar-lein nag yr oedd ganddynt cyn Covid oherwydd eu bod yn gorfod cymryd archebion yn y ffordd honno. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gweithredwyr nad ydynt yn cynnig llety: mae tua chwarter (26%) y gweithredwyr nad ydynt yn cynnig llety yn gwneud newidiadau strategol yn dweud y byddant bellach yn cadw eu presenoldeb gwell ar-lein.

*"Rhoddodd y cyfyngiadau symud gyfle i ni ddatblygu'r wefan. Mae gwerthiannau ar-lein wedi codi ers hynny."*
Atyniad, De-orllewin


### Newidiadau yn y bwyd a gynigir

4.5 Mae rhai (6%) busnesau sy'n gwneud newidiadau strategol yn dweud nad ydyn nhw'n darparu bwyd mwyach, mae 5% yn dweud eu bod nhw'n cynnig llai o fwyd, ac mae 2% yn dweud eu bod nhw'n cyflwyno bwyd. Yn benodol ymhlith gweithredwyr llety â gwasanaeth, nid yw 15% o'r rhai sy'n gwneud newidiadau strategol yn darparu bwyd mwyach ac mae 14% yn cynnig llai o fwyd.

*"Bu'n rhaid i ni newid ein model i ystafelloedd hunangynhaliol yn unig gan fod y cyngor lleol wedi rhoi caniatâd cynllunio i adeiladu gwesty enfawr yn ein pentref ac ni allwn gystadlu â hynny."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Rydyn ni wedi agor gardd gwrw ac yn gwneud bwyd tecawê yn ogystal â danfon bwyd a diod i garafannau."*
Maes carafannau, De-orllewin

## Cymorth sydd ei angen i wneud newidiadau strategol




*Gofynnwyd C9 i fusnesau sy'n gwneud newidiadau strategol, heblaw am ymddeol yn gynnar. Roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno gwybod yn y don hon sut y gall ganolbwyntio cymorth ar gyfer newidiadau strategol.*

### Rydym ni'n iawn, diolch yn fawr

4.6 Mae bron hanner (44%) y rhai sy'n gwneud newidiadau strategol yn teimlo nad oes angen cymorth arnynt gan Lywodraeth Cymru i wneud y newidiadau hynny. I ryw raddau, gallai'r gyfran hon fod yn uchel oherwydd bod rhai busnesau eisoes wedi gwneud y newidiadau hynny neu wedi datblygu llawer ohonynt.

*"Mae gennym 100 o bobl ar y rhestr aros am saith llain. Felly nid oes angen unrhyw gymorth arnom"*
Maes carafannau, Canolbarth

*"Mae gennym dîm marchnata gwych"*
Maes carafannau, Gogledd

**Anawsterau recriwtio**

4.7 Edrychwn ar yr argyfwng staffio presennol yn fwy manwl yn Adran 6. Hoffai rhai o'r busnesau sy'n profi problemau i Lywodraeth Cymru ymyrryd.

> *"Rydyn ni wedi gorfod cau dwy noson yr wythnos gan mai dim ond dau gogydd sydd gyda ni yn lle pedwar. Rydyn ni wir yn cael trafferth ar Ynys Môn."*
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

**Buddsoddiad ariannol**

4.8 Hoffai 15% o'r rhai sy'n gwneud newidiadau strategol fuddsoddiad ariannol i adnewyddu neu ddatblygu cyfleusterau.

> *"Mae angen cymorth ariannol ychwanegol arnom i helpu i adnewyddu cyfleusterau busnes."*
> Hunanarlwyo, Canolbarth

> *"Mae angen cyllid cefnogol arnom i adnewyddu'r cyfleusterau gan eu bod wedi dyddio."*
> Hunanarlwyo, De-orllewin

**Marchnata i ddod â thwristiaid i'r rhanbarth**


4.9 Hoffai 14% o'r rhai sy'n gwneud newidiadau strategol i Croeso Cymru farchnata eu rhanbarth a denu twristiaid. Mae'r ceisiadau'n amrywio o ranbarthau mwy cyffredinol i drefi penodol.

> *"Byddai rhaglen ddogfen fach am Landudno ar y teledu yn dda."*
> Maes carafannau, Gogledd

4.10 Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal ymgyrch 'hydref a gaeaf', a drafodir yn yr adran nesaf.

# 5. Ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ac archebion ymlaen llawn

## Ymwybyddiaeth o ymgyrch 'hydref a gaeaf' Croeso Cymru




**Mae rhai gweithredwyr yn ymwybodol**

5.1 Mae 22% o weithredwyr yn ymwybodol bod Croeso Cymru wedi bod yn cynnal ymgyrch 'hydref a gaeaf' i geisio denu mwy o ymwelwyr i Gymru yr adeg hon o'r flwyddyn. Er mai lleiafrif yn unig yw hwn, dylem weld y canlyniad hwn yng nghyd-destun yr ymgyrch sy'n targedu defnyddwyr y tu allan i Gymru, nid busnesau yng Nghymru.

5.2 Mae rhywfaint o amrywiad mewn ymwybyddiaeth fesul sector. Darparwyr atyniadau a gweithgareddau yw'r rhai mwyaf ymwybodol (30%), ynghyd â llety â gwasanaeth (26%). Gwelir ymwybyddiaeth is ymhlith hunanarlwyo a meysydd gwersylla a charafannau (18%), a bwytai, tafarndai a chaffis (10%). Nid yw'r gwahaniaethau fesul rhanbarth yn arwyddocaol.

*"Rwy'n gobeithio y bydd yr ymgyrch hydref-gaeaf newydd hon yn dod â mwy o dwristiaid i Gymru."*
Hunanarlwyo, De-orllewin

**Tystiolaeth o dymor estynedig**

5.3 Mae'r nifer cynyddol o ymwelwyr yr hydref hwn o'i gymharu â chyn Covid, ynghyd â rhai sylwadau agored, yn awgrymu bod diwydiant twristiaeth Cymru wedi mwynhau tymor prysur estynedig eleni trwy'r hydref. Nid yw'n bosibl dweud o'r gwaith ymchwil hwn p'un a yw'r ymwelwyr cynyddol wedi dod o ganlyniad i'r ymgyrch hon ai peidio, ond mae'r diwydiant yn sicr wedi bod yn brysur yr hydref hwn

*"Fel rheol, mae'n tawelu yn ystod mis Medi ond y tro hwn roedd yn brysur yr holl ffordd tan ddiwedd mis Tachwedd. Felly deufis ychwanegol o fasnach."*
Hunanarlwyo, De-orllewin


*“Dim ond penwythnosau rydyn ni ar agor ar hyn o bryd ond rydyn ni'n cael tua 200 o bobl y dydd. Fel arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, gallwch chi gyfrif y niferoedd ar ddwy law.”*

Atyniad, Gogledd

*“Mae'n ddiddorol eich bod wedi crybwyll ymgyrch farchnata Croeso Cymru oherwydd bod ein misoedd gaeaf yn brysur iawn hefyd.”*

Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Archebion ymlaen llaw




*Gofynnwyd C15 i ddarparwyr llety yn unig*

### Pryderon ynghylch amrywiolyn newydd a chyfyngiadau pellach

5.4 Mae ymgyrch hydref a gaeaf Croeso Cymru wedi anelu at ddenu archebion yr holl ffordd drwy’r gaeaf hyd ddiwedd mis Chwefror. Er bod rhai gweithredwyr llety yn dweud bod ganddyn nhw fwy o archebion ymlaen llaw nag y bydden nhw fel arfer ar gyfer y gaeaf, yn anffodus mae ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron wedi difetha'r hyn a allai fel arall fod wedi bod yn gyfnod gwell.

*“Mae pobl yn bryderus ynglŷn â mynd allan oherwydd yr hinsawdd fyd-eang sydd ohoni.”*

Hunanarlwyo, Canolbarth

*“Mae ofn Covid yn lleihau archebion.”*

Hunanarlwyo, De-ddwyrain

*“Mae'n debyg ein bod ni'n rhy brysur … mae'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn llawn ac mae pobl yn dod ym mis Ionawr a mis Chwefror. Mae'n barhaus. Ni fu erioed fel hyn o'r blaen.”*

Hunanarlwyo, Canolbarth

*"Rydyn ni'n disgwyl dechrau araf i aeaf 2022 ond cynnydd yn nes at yr haf."*
Darparwr gweithgareddau, De-ddwyrain

5.5 Mae rhywfaint o amrywiad yn y lefelau archebu ymlaen llaw fesul rhanbarth:

- Mae gan 26% o weithredwyr llety yng ngogledd Cymru a 22% yng nghanolbarth Cymru fwy o archebion ymlaen llaw
- Mae hyn yn cymharu ag 17% yn ne-orllewin Cymru a 12% yn ne-ddwyrain Cymru

**Byddai angen i bethau i ymwelwyr eu gwneud yn y gaeaf**


5.6 Mae rhai gweithredwyr llety yn tynnu sylw at y ffaith, er eu bod yn aros ar agor yn y gaeaf, fod angen mwy i ymwelwyr ei wneud yn eu hardal os ydyn nhw am gael eu hannog i ddod. Mae llawer o atyniadau a lleoedd i fwyta ac yfed yn cau.

*"Mae llawer o fusnesau yng ngogledd Cymru yn wirioneddol ddioddef gan nad oes unrhyw beth i'w wneud yma yn y gaeaf."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae'r bwytai a'r caffis yma ar gau ar gyfer y gaeaf, felly oni bai fod gennych gar, nid oes unman i chi fynd am bryd bwyd gweddus … Rwy'n annog pobl i beidio â dod yma gan nad oes cyfleusterau iddynt eu defnyddio."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

# 6. Recriwtio

## Swyddi gwag





*Gofynnwyd C12 i lety â gwasanaeth, bwytai, tafarndai a chaffis*

### Mae rhai yn ceisio recriwtio

6.1 Ar hyn o bryd, mae 32% o weithredwyr llety â gwasanaeth a 47% o fwytai, tafarndai a chaffis yn ceisio llenwi swyddi gwag staff.

6.2 Mae swyddi gwag ar eu huchaf yn ne-ddwyrain Cymru, lle mae 36% o'r ymatebwyr yn chwilio am staff.

## Anawsterau recriwtio




*Gofynnwyd C13 i'r rhai sy'n chwilio am staff*

**Anawsterau parhaus i'r mwyafrif sydd angen staff newydd**

6.3 Gofynnwyd cwestiynau am anawsterau recriwtio ddiwethaf yn nhon Mehefin y baromedr. Gan ystyried y sectorau sydd wedi'u cynnwys y tro hwn, nid yw'r canlyniadau'n wahanol i'r gorffennol: mae tua thri o bob pump (61%) o ymatebwyr yn profi anawsterau sylweddol wrth recriwtio. Mae pob rhanbarth o Gymru yn ei chael hi'n anodd.

6.4 Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar fusnesau, gyda rhai yn cael eu gorfodi i leihau amseroedd agor neu wasanaethau bwyd. Mae'n arbennig o anodd recriwtio cogyddion ar hyn o bryd.


*"Heb staff, rydym yn cael trafferth gwneud y gwaith. Gallwn lenwi'r gwesty ond ni allwn gynnig y gwasanaethau oherwydd ni allwn ddod o hyd i weithwyr."*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

*"Rydyn ni wedi rhoi'r gorau i wneud partïon a chabare oherwydd nad ydyn ni'n gallu dod o hyd i'r staff iawn ar gyfer y galw."*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

*"Mae ein bwyty ar gau ar hyn o bryd oherwydd diffyg cogyddion."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae'r diwydiant lletygarwch cyfan wedi bod ar ei liniau gyda'r diffyg staff. Ni allwn ddarparu cinio mwyach felly rydym yn colli arian o'i herwydd."*
Tafarn, Gogledd

## Rhesymau canfyddedig dros anawsterau




*Gofynnwyd C14 i'r rhai sydd wedi bod yn cael trafferthion recriwtio*

### Llawer o resymau canfyddedig

6.5 Fel y gwelsom hefyd yn y don ymchwil ym mis Mehefin, mae llawer o resymau canfyddedig yn cyfuno i wneud y broses o recriwtio staff yn anodd iawn yn y diwydiant. Nid yw'r sefyllfa wedi newid: nid yw llawer o weithwyr yn gweld y sector yn ddigon deniadol gyda'r cyflog isel canfyddedig, oriau gwrthgymdeithasol ac ansicrwydd swydd. Mae hyn wedi gwaethygu ers Covid yn ôl pob tebyg, ac nid yw diffyg gweithwyr yr UE, a arferai lenwi llawer o'r swyddi yn y sector, yn helpu chwaith.

*"Mae staff ar yr isafswm cyflog ac ni allwn dalu mwy."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae Brexit wedi golygu ein bod wedi colli ein staff o dramor."*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

6.6 Mae'r cynllun ffyrlo bellach ar ben, ond mae 9% o'r ymatebwyr wedi ei chael hi'n anodd cael staff i ddychwelyd i'r gwaith. Mewn rhai achosion, mae gweithwyr wedi dod o hyd i waith yn


rhywle arall; mewn achosion eraill, efallai y bydd gweithwyr wedi dewis peidio â dychwelyd i'r gwaith o gwbl, yn y tymor byr o leiaf. Nid yw'r cyflogwyr eu hunain bob amser yn gwybod.

6.7 Mae rhai gweithredwyr mewn sectorau nad ydynt yn rhan o'r cwestiynau hyn hefyd wedi gwneud sylwadau wrth drafod perfformiad eu busnes:

> *"Ni allwn gael staff – mae gennym hysbysebion ym mhobman – rwyf wedi siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau ond ni allwn recriwtio. Gall cogydd hyfforddi i fod yn yrrwr ac ennill dwbl, felly pam bod yn gogydd mwyach? Rydym wedi hysbysebu am uwch-aelodau staff, cogyddion, i lawr i weinyddion. Dim byd. Unwaith yr aeth pobl ar ffyrlo, fe wnaethant ddysgu byw ar gyflogau is. Daeth cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn bwysicach felly nad ydyn nhw eisiau gweithio'r oriau hir."*
> Maes carafannau, Gogledd

# 7. Hyder

## Hyder cyffredinol




### Lefel resymol o hyder

7.1 Mae'r hyder cyffredinol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn weddol uchel; mae'n dibynnu ar sawl ffactor allweddol, a drafodir yn eu tro isod.

### Hyderus os nad oes mwy o gyfyngiadau symud – ond mae Omicron yn bygwth

7.2 Roedd gweithredwyr wedi bod yn edrych ymlaen yn bennaf at fynd yn ôl i normal y flwyddyn nesaf, yn dilyn dwy flynedd a gafodd eu rhwystro'n sylweddol gan gyfyngiadau Covid. Yn anffodus, darganfuwyd yr amrywiolyn Omicron o Covid yn ddiweddar, gan beri i lywodraethau ledled y byd ruthro i'w reoli. Yng Nghymru, ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau ein bod yn dychwelyd i gyfyngiadau symud, ond mae rhai gweithredwyr yn ofni y gallai ddigwydd.

*“Cyn belled ag nad oes mwy o gyfyngiadau symud, rwy'n hyderus y byddwn ni'n iawn.”*
Darparwr gweithgareddau, De-orllewin

*“Ddoe byddwn wedi dweud fy mod yn hyderus iawn ond gan fod yr amrywiolyn newydd hwn yma o Dde Affrica, nid ydym yn gwybod a fydd rhagor o gyfyngiadau symud. Os nad oes, yna byddwn yn brysurach nag erioed.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“Byddwn i'n dweud ein bod ni'n hyderus iawn ond mae'r amrywiolyn newydd hwn wedi rhoi llai o hyder i mi, gyda rhagor o gyfyngiadau symud posibl.”*
Darparwr gweithgareddau, Gogledd

**Yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd gyda gwyliau dramor**

7.3 Mae'r galw am wyliau haf domestig yn y DU wedi bod yn uchel yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd cyfyngiadau o ran mynd dramor. Ar gyfer y diwydiant yng Nghymru y flwyddyn nesaf, mae llawer yn dibynnu ar a fydd pobl ar eu gwyliau yn y DU yn ailddechrau mynd ar wyliau dramor. Mae rhai gweithredwyr yn credu y byddan nhw, tra bo eraill yn rhagweld blwyddyn fywiog arall o bobl yn mynd ar wyliau gartref.

*“Rwy'n credu o hyd y bydd y flwyddyn nesaf yr un fath ag eleni. Mae llawer o bobl yn dweud nad ydyn nhw eisiau mynd dramor o hyd. Rwy'n credu y bydd y galw [domestig] yn lleihau’r flwyddyn ganlynol.”*
Maes carafannau, Gogledd

*“Mae eleni wedi bod yn eithriadol o dda oherwydd y cyfyngiadau teithio. Mae llawer o bobl oedrannus wedi dweud wrthyf na fyddant yn mynd dramor eto, felly mae hynny'n dda i Gymru. Os yw Covid gyda ni o hyd yna bydd y flwyddyn nesaf yn dda, ond os yw Covid wedi mynd yna bydd pobl yn ffoi dramor.”*
Hunanarlwyo, Gogledd

*“Mae'n dibynnu ar Covid ac os yw pobl yn penderfynu mynd dramor fel grwpiau o deuluoedd, yna byddai hynny'n ei gwneud hi'n anodd i ni.”*
Hostel, De-ddwyrain

*“Mae'n mynd i fod yn wyllt nes bod pobl yn hedfan eto, ac yna bydd yn mynd yn ôl i normal.”*
Maes carafannau, Gogledd


**Costau cynyddol**

7.4 Mae trosiant yn un ffactor sy'n effeithio ar broffidioldeb; y llall yw costau. Er y gallai'r galw am wyliau yng Nghymru y flwyddyn nesaf fod yn uchel, mae rhai gweithredwyr yn poeni am allu talu costau gweithredu cynyddol.

*“Mae'r costau'n mynd trwy'r to: trydan, atgyweirio adeiladau ac ati. Mae'r asiantau yn mynd ag arian. Mae'n mynd yn anoddach gwneud elw. Rwy'n teimlo fy mod i'n troedio dŵr.”*
Hunanarlwyo, De-orllewin

*“Mae costau nwy, trydan, bancio i gyd yn cynyddu. Mae'r ymylon elw’n lleihau.”*
Hunanarlwyo, De-orllewin

## Hyder fesul sector




**Mae hyder yn uwch ymhlith gweithredwyr llety**

7.5 Mae gweithredwyr llety mewn hwyliau llawer mwy bywiog o gymharu â gweithredwyr nad ydynt yn rhan o'r sector llety.

**Ni allwn adeiladu'r carafannau yn ddigon cyflym**


7.6 Un broblem anarferol sy'n effeithio ar y sector carafannau ar hyn o bryd yw nad yw'r cyflenwad o garafannau statig newydd yn gallu ateb y galw cynyddol amdanynt. Mae rhai meysydd carafannau annibynnol llai yn honni bod cadwyni cenedlaethol mawr yn cael blaenoriaeth dros gyflenwad.

*"Mae gwerthiant carafannau yn dwll du posib. Nid yw pobl yn gwerthu ac ni allwn eu cynhyrchu yn ddigon cyflym felly mae lleiniau gwag ar ôl gennym. Y cwmnïau mwy sy'n cael y cynnig cyntaf."*
Maes carafannau, Gogledd

*"Mae'n mynd i fod fel ffair – ni allwn gael carafannau tan 2023."*
Maes carafannau, Canolbarth

7.7 Fel arall, mae gweithredwyr meysydd carafannau yn disgwyl mwynhau llwyddiant pellach yn dilyn 2021 prysur iawn.

## Tuedd hyder




*Ni chynhaliwyd ton baromedr yr adeg hon y llynedd*

**Lefel debyg o hyder i flynyddoedd 'normal'**

7.8 Mae lefel yr hyder yn y diwydiant ar hyn o bryd yn gymharol â chyn Covid yr adeg hon o'r flwyddyn.

> *"Rydym eisoes yn cymryd archebion yn helaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae gen i lawer o archebion dychwel hefyd. Mae'n edrych yn dda iawn hyd at fis Medi."*
> Hunanarlwyo, Gogledd

> *"Rydym yn llawn tan fis Medi 2022."*
> Llety â gwasanaeth, De-orllewin

> *"Rwy'n hyderus iawn am y flwyddyn nesaf."*
> Darparwr gweithgareddau, Canolbarth

## Holiadur Baromedr Mis Tachwedd

Sector — Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ❑
- Llety hunan arlwyo ❑
- Maes carafannau / pebyll ❑
- Hostel ❑
- Atyniad ❑
- Cynal gweithgaredd ❑
- Bwyty / tafarn / caffi ❑

C1 — A yw eich busnes wedi bod ar agor y blwyddyn yma?

- Oedd ❑
- Nac oedd ❑

C2 — Ar ba lefel o gapasiti arferol ydych chi wedi bod yn gweithredu?

*Os cynyddir y capasiti ran o'r ffordd trwy'r flwyddyn, cofnodwch y lefel brig. Gall 'capasiti' hefyd ymwneud â gwasanaethau yn ogystal ag ystafelloedd.*

- Capasiti llawn ❑
- 75 – 99% ❑
- 50 – 74% ❑
- 25 – 49% ❑
- Llai na 25% ❑

C3 — Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr hydref hwn o'i gymharu ag hydref arferol?

- Mwy na'r arfer ❑
- Tua'r un peth â'r arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑
- Ddim yn gwybod ❑

C4 — Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer?

*Annog os oes angen*

- Ymwelwyr y DU yn archebu yng Nghymru yn lle archebu dramor ❑
- Mae pobl yn ysu am fynd ar wyliau ❑
- Lefel sylweddol o ail-archebion o gansladau blaenorol ❑
- Tywydd braf ❑
- Ymwelwyr sy'n dychwelyd ❑
- Argymhellion ❑
- Ein marchnata ein hunain ❑
- Ymgyrch 'Hydref a Gaeaf' Croeso Cymru ❑
- Ddim yn gwbod ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'* ______________________

C5 Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael llai o gwsmeriaid nag arfer?

*Annog os oes angen*

- Roedd llai o gapasiti yn cyfyngu faint o archebion y gallem eu cymryd ❑
- Tywydd gwael ❑
- Diffyg staff ❑
- Ni wnaethom hyrwyddo'r busnes yn weithredol ❑
- Roedd pobl yn ofalus am archebu ❑
- Pobl yn archebu dramor yn lle ❑
- Llawer o gansladau hwyr ❑
- Colli marchnad benodol ❑
- Diffyg eglurder ynghylch pryd i dderbyn archebion ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ______________________

C6 *Cyfwelydd: cofnodi unrhyw sylwadau defnyddiol a wneir am berfformiad yr hydref yma*

______________________

C7 Nawr bod y rhan fwyaf o gyfyngiadau Cofid wedi'u dileu yng Nghymru, ydych chi wedi gwneud neu a ydych chi'n mynd i wneud unrhyw newidiadau strategol parhaol i'r ffordd y mae'r busnes yn cael ei redeg yn y dyfodol? Gallai enghreifftiau gynnwys newid o hunanarlwyo i lety â gwasanaeth neu i'r gwrthwyneb, gweithredu trwy gydol y flwyddyn, ymestyn yr adeilad neu dargedu marchnadoedd newydd.

- Ydw ❑
- Nac ydw ❑

C8 *Pa newidiadau strategol parhaol ydych chi wedi'u gwneud neu ydych chi'n mynd i wneud?*

*Cyfwelydd: os daw'n amlwg nad yw newidiadau yn barhaol ac yn strategol, ewch yn ôl a newid yr ateb blaenorol i 'na'*

- Darparu bwyd ❑
- Bellach ddim yn darparu bwyd ❑
- Darparu llai o fwyd ❑
- Cynnig gwasanaethau neu gynyrch newydd ❑
- Yn cynnig gwasanaethau neu gynhyrchion mwy cyfyngedig ❑
- Targedu marchnadoedd newydd ❑
- Wedi agor lle awyr agored newydd ❑
- Mae angen mwy o staff ❑
- Mae angen llai o staff ❑
- Gwell presenoldeb ar-lein ❑
- Dibynu mwy ar asiantaethau trydydd parti ❑
- Yn ymddeol / cau'r busnes yn barhaol yn gynharach na'r disgwyl ❑
- Yn fwy tebygol o weithredu trwy gydol y flwyddyn ❑
- Yn fwy tebygol o gau am ran o'r flwyddyn ❑
- Arall ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ______________________

C9 *Os y bydd unrhyw newidiadau strategol parhaol ac eithro ymddeol*

Pa help, os o gwbl, y gallai fod ei angen arnoch gan Croeso Cymru, Busnes Cymru neu Llywodraeth Cymru i redeg eich busnes yn wahanol yn y dyfodol?

- Help i dalu costau gweithredu cynyddol ❑
- Budsoddiad ariannol i ddatblygu'r busnes ❑
- Marchnata i ddod â thwristiaeth i'n rhanbarth yng Nghymru ❑
- Helpu i ddatrus yr argyfwng staffio cyfredol ❑
- Hyfforddiant - e.e marchnata, sut i gael gwell presenoldeb ar-lein ❑
- Canllawiau - e.e diweddariadau ar reolau Covid, newidiadau cyfraith ac ati ❑
- Caniatau i fusnesau weithredu heb gyfyngiadau Covid ❑
- Deall tueddiadau'r dyfodol ❑
- Ddim angen help ❑
- Arall ❑

*Nodwch arall* ____________________

C10 *Os bydd unrhyw newidiadau strategol parhaol ac eithrio ymddeol*

Cyfwelydd: chwiliwch am fanylion yr help sydd ei angen a chofnodwch yr holl sylwadau defnyddiol

____________________

C11 *Pawb*

Ydych chi'n ymwybodol bod Croeso Cymru wedi bod yn cynnal ymgyrch farchnata 'Hydraf a Gaeaf' yn ystod y misoedd diwethaf gyda'r nod o ddenu mwy o ymwelwyr i Cymru yr adeg hon o'r flwyddyn

- Ydw ❑
- Na ❑

C12 *Bwytai, tafarndai, caffis llety â gwasanaethau oni bai y rhai sy'n ymddeol*

A ydych ar hyn o bryd yn ceisio llenwi unrhyw swyddi gwag staff, naill ai staff barhaol neu'n dymhorol?

- Ydw - parhaol ❑
- Ydw - tymhorol (e.e Nadolig) ❑
- Na ❑
- ❑

C13 *Os yn recriwtio*

A ydych chi'n cael unrhyw anhawster wrth ddod o hyd i'r staff sydd eu hangen arnoch?

- Ydyn - Cryn drafferthion ❑
- Ydyn - dipyn o drafferth ❑
- Na ❑
- Ddim yn gwybod eto ❑

C14 *Os oes unrhyw anhawsterau*

Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n cael anhawsterau wrth ddod o hyd i staff sydd eu hangen arnoch?

*Yn ddigymell, cliciwch bopeth sy'n berthnasol*

- Diffyg diddordeb mewn gweithio oriau anghymdeithasol ❑
- Diffyg diddordeb mewn gwaith â chyflog isel ❑
- Swydd yn cael ei hystyried 'ddim yn swydd go iawn' ❑
- Anodd dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau neu'r profiad cywir ❑
- Anodd cael staff i ddychwelyd o furlough ❑
- Gormod o swyddi gwag i'w llenwi mewn cyfnod byr ❑
- Sectorau eraill yn fwy deiniadol ❑
- Diffyg myfyrwyr yn aros yn yr ardal ❑
- Llai o weithwyr yr UE o gwmpas ❑
- Ddim â'r adnoddau i hysbysebu ❑
- Gormod o ansicrwydd swydd un y sector lletygarwch ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch arall* ____________________

C15 *Busnesau llety oni bai eu bod yn ymddeol*

Faint o archebion ymlaen llaw sydd gennych chi rhwng nawr a diwedd mis Chwefror o gymharu â'r hyn fyddai gennych chi fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn?

- Mwy na'r arfer ❑
- Tua'r un peth â'r arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Ddim yn berthnasol – ddim yn cymryd archebion ymlaen llaw yn y Gaeaf ❑

C16 *Pawb heblaw y rhai sy'n ymddeol*

Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am redeg y busnes yn broffidiol y flwyddyn nesaf?

*Cyfwelydd: Os yw'n atyniad a ariennir gan y cyhoedd, gofynnwch am hyder i dalu costau gweithredu os ydyn nhw'n teimlo nad yw'r gair 'proffidiol' yn berthnasol iddyn nhw*

- Hyderus iawn ❑
- Eithaf hyderus ❑
- Ddim yn hyderus ❑
- Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- Dim yn gwybod ❑

C17 Pawb heblaw y rhai sy'n ymddeol

*Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud am eich disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf?*

*Cyfwelydd: cofnodwch unrhyw dueddiadau archebu a hefyd unrhyw sylwadau defnyddiol a wneir am unrhyw newidiadau strategol*

____________________